



HM Prison &  
Probation Service

# Diweddariad i Fodel Gweithredu Targed Drafft y Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr

Y Rhaglen Diwygio Gwasanaethau  
Prawf

Mehefin 2020

# Cynnwys

## 2. **Pennod Un: Cyflwyniad**

## 5. **Pennod Dau: Trosolwg o'r model diwygiedig**

6. Crynodeb o'r newidiadau o dan y model diwygiedig

## 12. **Pennod Tri: Manylion pellach ar y newidiadau**

12. Cyflwyno Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig gan yr NPS

12. Gwaith Di-dâl

14. Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig

14. Trosglwyddiadau staff a strwythurau rhanbarthol

15. Ymagwedd ddiwygiedig tuag at y Fframwaith Dynamig

16. Effeithiau ar staff

## 19. **Pennod Pedwar: Camau nesaf**



# Pennod Un: Cyflwyniad



# 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'r cyhoeddiad ym mis Mehefin 2020 am newidiadau i gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio'r gwasanaeth prawf i adlewyrchu effaith COVID-19. Mae'n amlinellu lle bydd angen i gynigion a gynhwysir yn y Model Gweithredu Targed drafft, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni, newid er mwyn adlewyrchu'r ymagwedd ddiwygiedig.
- 1.2. Roedd y Model Gweithredu Targed drafft yn manylu ar ymagwedd farchnad gymysg ar ddiwygio'r gwasanaeth prawf lle byddai:
  - Pob achos Rheoli Dedfryd yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS);
  - Gwaith Di-dâl ac ymyriadau diffiniadwy eraill y gellid eu darparu ar raddfa'n cael eu contractio i Bartneriaid Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf;
  - Cefnogaeth adsefydlu ac ailsefydlu arbenigol yn cael ei darparu trwy gontractau llai, mwy lleol trwy Fframwaith Dynamig troswaol.
- 1.3. Mewn ymateb i effaith sylweddol COVID-19 ar weithrediadau'r gwasanaeth prawf, bu'n rhaid i ni adolygu'r ymagwedd hon i osod gwasanaethau prawf ar sylfaen fwy sefydlog i ymateb i unrhyw amhariad pellach a galluogi adferiad a phontio cyflym i wasanaeth prawf diwygiedig.
- 1.4. Hyd yn oed cyn yr heriau newydd a osodwyd ar y system gan COVID-19, roedd angen dybryd am ddiwygio. Yn ogystal, mae'r rôl ganolog y mae gwasanaethau prawf yn ei chwarae mewn system cyfiawnder troseddol effeithiol sy'n amddiffyn y cyhoedd yn golygu ei fod yn hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i weithredu newid ym mis Mehefin 2021 fel y cynlluniwyd. Felly, rydym yn cymryd y cam pendant i symleiddio'r diwygiadau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu ar gyfer mis Mehefin 2021.
- 1.5. Bydd yr ymagwedd symlach hon yn blaenoriaethu trosglwyddo'r holl Reoli Dedfrydau i'r NPS fel y manylir yn y Model Gweithredu Targed drafft ond bydd yn dileu un o dri philer system y dyfodol, sef Partneriaid Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf.
- 1.6. Rydym yn atal cystadleuaeth Partneriaid Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf ac yn dod â'r gwasanaethau hyn i mewn i'r NPS fel cam pragmataidd i ennill rheolaeth ar ein hymateb i'r argyfwng digynsail hwn, yn ogystal â symleiddio'r llwybr at ddiwygiadau ar gyfer mis Mehefin 2021. Byddwn wrth gwrs yn ceisio cadw ac adeiladu ar y gorau o'r cynnydd a'r arloesedd a gyflawnwyd trwy ddarpariaeth y sector preifat.
- 1.7. Rydym yn cydnabod bod yna feysydd lle mae gan yr NPS brofiad ac arbenigedd cyfyngedig, felly mae'n bwysig ein bod yn cadw rôl i ddarparwyr arbenigol ddarparu cefnogaeth adsefydlu ac ailsefydlu. Ein huchelgais o hyd yw contractio gyda darparwyr i ddarparu'r mathau hyn o ymyriadau trwy'r Fframwaith Dynamig. Mae hyblygrwydd

comisiynu trwy Fframwaith Dynamig yn golygu y gallwn ddatblygu darpariaeth gwasanaeth gyfoethocach unwaith y bydd y system newydd ar waith.

- 1.8. Nid yw ein huchelgeisiau ar gyfer y diwygiadau wedi newid o'r rhai a amlinellir yn y Model Gweithredu Targed drafft:
- Gwell defnydd o ddedfrydau cymunedol fel dewis amgen i'r ddalfa;
  - Mwy o hyder a dylanwad barnwrol yn y llys;
  - Gwasanaeth o ansawdd uwch;
  - Mwy o weithio cydweithredol yn ein sefydliad a chryfhau ein gwaith gyda phartneriaid;
  - Datblygu ein gweithlu;
  - Mwy o hyblygrwydd yn ein galluogi i ysgogi newid ar draws y system a chwrdd â newidiadau yn y galw lle bo angen.
- 1.9. Mae'r model diwygiedig yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i allu cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Yn wir, gyda mwy o reolaeth dros elfennau craidd y gwasanaeth prawf, gallwn hwyluso goruchwyliaeth prawf mwy strategol ac integredig trwy feithrin cydweithredu agos â phartneriaid strategol gan gynnwys llysoedd lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd.



# **Pennod Dau: Trosolwg o'r model diwygiedig**



## 2. Trosolwg o'r model diwygiedig

- 2.1. Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg o agweddau allweddol y system newydd a ddisgrifir yn y Model Gweithredu Targed drafft a sut mae'r ymagwedd ddiwygiedig yn effeithio ar y rhain. Yna disgrifir newidiadau sylweddol yn fanylach yn adran 3 isod.
- 2.2. Fel yr amlinellir yn y Model Gweithredu Targed drafft, bydd cyfnod trawsnewid i'r model newydd i ymgorffori'r newidiadau yn dilyn eu gweithredu ym mis Mehefin 2021 (Diwrnod 1). Rydym yn mabwysiadu ymagwedd 'codi a symud' tuag at drosglwyddo trefniadau CRC cyn belled ag y bo modd er mwyn lleihau unrhyw amhariad pellach a achosir gan COVID-19 ac i sicrhau gwasanaethau ar gyfer Diwrnod 1. Yna byddem yn ceisio mireinio'r model ar ôl Diwrnod 1 i adlewyrchu ein huchelgeisiau o ran gwella ansawdd a chanlyniadau ein gwasanaethau gan gynnwys meithrin gweithio mewn partneriaeth i gefnogi hyn.
- 2.3. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni yn yr amseroedd ansicr hyn. Mae'n ein galluogi i bennu cyflymder yr adferiad o fodolau cyflenwi eithriadol a gwneud hynny'n fwy effeithiol trwy drawsnewid yn syth o'r rhain i weithredu diwygiadau.

Crynodeb o'r newidiadau o dan y model diwygiedig

Agwedd y model	Cynigion allweddol a amlinellir yn y Model Gweithredu Targed drafft	Newid o dan y model newydd
<b>Darparu Rheoli Dedfrydau</b>	Mae'r cyfrifoldeb am reoli pob unigolyn sy'n destun gwasanaethau prawf yn symud i'r NPS trwy integreiddio CRC a Rheoli Dedfrydau NPS.	<b>Dim newid</b> Bydd yr holl weithgaredd Rheoli Dedfrydau yn symud i'r NPS ym mis Mehefin 2021. Bydd angen gweithredu rhai newidiadau i'r ffordd yr ydym yn mynd ati i Reoli Dedfrydau (e.e. Ymarferwyr Prawf sydd â llwyth achosion cymysg) o reidrwydd ar ôl mis Mehefin 2021.
	Bydd cyngor i'r llys yn parhau i fod yn ddyletswydd graidd ar yr NPS gyda mwy o ffocws ar ansawdd yr asesiad ac adroddiadau cyn dedfrydu.	<b>Dim newid</b> Bydd newidiadau sylweddol i'r gwaith hwn, gan gynnwys templedi adroddiadau cyn dedfrydu diwygiedig, yn cael eu gweithredu ar ôl Mehefin 2021.
	Trawsnewid o fodel ailsefydlu trwy'r porth uwch i fodel ailsefydlu newydd sy'n gwella cysylltiadau â charchardai, yn gwella cynllunio cyn rhyddhau gan Ymarferwyr Prawf ac yn rhoi mwy o ffocws ar ddedfrydau tymor byr.	<b>Dim newid</b> Bydd llawer o'r ymagwedd ailsefydlu newydd yn dod i rym ym mis Mehefin 2021, ond fel yn achos pob agwedd ar y model newydd, bydd rhai elfennau sy'n cymryd amser i ymgorffori, er enghraifft, wrth i ni recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol.
<b>Strwythurau Prawf newydd</b>	Bydd Gwasanaethau Prawf yn cael eu trefnu o amgylch 12 rhanbarth dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol sydd ag atebolrwydd am yr NPS a darpariaeth dan gontract	<b>Dim newid</b> Mae'r holl Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol bellach yn eu swyddi ac rydym yn trawsnewid i'r strwythur newydd.




<b>Strwythurau Prawf newydd</b>	Strwythurau sefydliadol rhanbarthol newydd o dan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i sicrhau bod ganddynt y galluedd a'r swyddogaethau cywir ar waith i gyflawni eu cyfrifoldebau.	Mae angen parhaol am hyn ac mae recriwtio i swyddi sy'n hollbwysig i'r busnes cyn trosglwyddo yn parhau. Fodd bynnag, mae'r ymagwedd ddiwygiedig yn gofyn am adolygiad o strwythurau sefydliadol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu cyfrifoldebau am ymyriadau diffiniadwy a fydd bellach yn dod o dan yr NPS.
	Fframwaith newydd sy'n creu cymhellion i ysgogi perfformiad gwell ar draws yr NPS a darparwyr dan gontract	Er nad yw ein huchelgeisiau mewn perthynas â pherfformiad wedi newid, bydd y fframwaith perfformio yn gofyn am newid ffocws i adlewyrchu trefniadau cyflenwi newydd.
<b>Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau prawf effeithiol</b>	Penodir Partneriaid Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf ym mhob rhanbarth i ddarparu ymyriadau diffiniadwy ar raddfa (Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig penodol).	Ni fyddwn bellach yn penodi Partneriaid Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf a bydd ymyriadau diffiniadwy ar raddfa'n cael eu darparu gan yr NPS yn dilyn diwedd y contractau CRC cyfredol ym mis Mehefin 2021.
	Bydd yr NPS yn cadw cyfrifoldeb am raglenni ar gyfer unigolion a euogfarnwyd o droseddau rhywiol yn ogystal ag am y rhai a euogfarnwyd o eithafiaeth neu droseddau cysylltiedig.	<b>Dim newid</b>
	Gwell perthnasedd, ansawdd a lleoli ar gyfer lleoliadau Gwaith Di-dâl.	<b>Dim newid</b> Nid yw'r model newydd yn newid y gwelliannau yr ydym am eu gwneud i Waith Di-dâl ond, yn enwedig o ystyried yr amhariadau presennol sy'n gysylltiedig â COVID a'r ôl-groniad canlyniadol, bydd y rhain yn cymryd peth amser i'w gweithredu'n llawn.



<b>Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau prawf effeithiol</b>	<p>Mwy o ffocws ar addasrwydd a chymhwystra ar gyfer Rhaglenni Achrededig a darparu'r rhain yn amserol mewn lleoliadau sy'n diwallu anghenion unigolion.</p>	<p><b>Dim newid</b> Yn yr un modd â Gwaith Di-dâl, bydd gwelliannau i ddarparu Rhaglenni Achrededig yn cael eu cronni dros amser ac ni fyddant ar waith ar unwaith ar gyfer Mehefin 2021.</p>
	<p>Bydd Ymyriadau Strwythuredig ar gyfer unigolion risg is nad ydynt yn addas ar gyfer Rhaglenni Achrededig sy'n canolbwyntio ar dri maes o angen troseddegol: Agweddau, Meddwl ac Ymddygiad; Cam-drin Domestig a Rheolaeth Emosiynol. Bydd ffocws ar gymhwystra, ansawdd a lleoliad darparu'r rhain.</p>	<p>Bydd Panel Ymyriadau Effeithiol cenedlaethol yn cael ei gynnull i asesu a chymeradwyo Gofynion Gweithgareddau Adsefydlu (RAR) cyfredol a ddarperir gan y CRC yn y 3 maes angen, i'w darparu'n fewnol gan yr NPS yn y dyfodol. Bydd RAR nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu hatal</p>
	<p>Bydd Fframwaith Dynamig yn darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu y gellir eu trefnu yn ôl y gofyn ar lefel leol er mwyn ymateb i anghenion.</p>	<p>Erys ein huchelgais i ddod â darpariaeth trydydd parti arbenigol i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion hyn. Wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer Mehefin 2021, byddwn yn canolbwyntio ar y categorïau angen hynny lle mae'r ddarpariaeth bresennol ar gael yn llai rhwydd, neu lle mae gennym anghenion penodol ar gyfer y system brawf. Rydym yn parhau i fod yn benderfynol o gaffael yr holl wasanaethau o'r fath trwy'r Fframwaith Dynamig yn y tymor hirach, a bydd gennym ddulliau amgen o sicrhau cefnogaeth i droseddwr yn y categorïau angen hynny nad ydym yn eu caffael ymlaen llaw. Er enghraifft, lle mae'r trefniadau comisiynu lleol presennol yn aeddfed a gellid eu hymestyn i ddiwallu ein hanghenion.</p> <p>Yn y tymor hirach, bydd y Fframwaith Dynamig yn parhau i fod yn fodd i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol drefnu ystod ehangach o wasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yn ôl y gofyn er mwyn ymateb i anghenion lleol.</p>

<p><b>Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau prawf effeithiol</b></p>	<p>Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn chwarae rôl allweddol mewn comisiynu a darparu gwasanaethau prawf yn effeithiol ac yn ymatebol yn lleol gan alluogi cydweithredu gwell â chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau cysylltiedig eraill.</p>	<p><b>Dim newid</b> Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth gomisiynu yn fwy ymatebol a meithrin cysylltiadau gwell gyda'r ystod eang o sefydliadau sy'n effeithio ar wasanaethau prawf yn eu rhanbarthau. Mae'r angen yn parhau hefyd am swyddogaeth rheoli contractau â sgiliau addas i oruchwylio darpariaeth gwasanaethau gan ddarparwyr trwy'r Fframwaith Dynamig.</p>
<p><b>Moderneiddio ein hystâd a'n technoleg</b></p>	<p>Rhesymoli a moderneiddio ein hystâd ddibreswyl i gefnogi darparu gwasanaethau.</p>	<p><b>Dim newid</b> Mae'r amcan hwn yn aros yr un fath ond gan y bydd y model newydd yn gweld nifer fawr o eiddo ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i'r ystâd, bydd angen diwygio ein hymagwedd tuag at gyflawni hyn. Bydd angen i ni ystyried effeithiolrwydd y ffyrdd o weithio a fabwysiadwyd i ymateb i amhariadau COVID ac, fel rhan o waith adfer, ystyried sut rydym yn mabwysiadu arferion sydd wedi gweithio'n dda i'r model newydd.</p>
	<p>Buddsoddi mewn uwchraddio i dechnoleg a chofnodi a rhannu data yn well i hwyluso gwelliannau i ddarparu gwasanaethau.</p>	<p><b>Dim newid</b> Erys yr amcan hwn a'r bwriad erioed oedd y byddai gwelliannau'n cael eu gweithredu dros nifer o flynyddoedd. Mae'r model newydd yn newid peth o'r ffocws ar gyfer Mehefin 2021 (e.e. Yn dileu'r angen am ryngweithio systemau gyda PDP ac yn creu'r angen am gronfa ddata ac offeryn cofrestru ar gyfer lleoliadau Gwaith Di-dâl, a Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig gan yr NPS)</p>

<b>Datblygu ein staff</b>	<p>Sefydlu Rhaglen Gweithlu Prawf i ddarparu ffocws o'r newydd ar y maes hwn, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Darparu eglurder am safonau a disgwiliadau proffesiynol</li> <li>- Cefnogi datblygiad Ymarferwyr Prawf a'u cyfarparu â'r offer, y sgiliau a'r galluedd cywir.</li> </ul>	<p><b>Dim newid</b></p> <p>Mae'r Rhaglen Gweithlu Prawf wedi'i sefydlu a chyn bo hir, bydd yn cyhoeddi'r Strategaeth Gweithlu Prawf sy'n disgrifio sut rydym yn bwriadu buddsoddi yn ein staff a'u datblygu. Mae'r Rhaglen Diwygio Prawf yn gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Gweithlu i sicrhau bod y model gweithredu targed newydd ar gyfer y gwasanaeth prawf yn cyd-fynd â'r strategaeth.</p>
	<p>Bydd staff yn cael eu trosglwyddo trwy gynllun(iau) trosglwyddo staff gan ddefnyddio'r pwerau a nodir yn Neddf Rheoli Troseddwyr 2007.</p>	<p><b>Dim newid</b></p> <p>Fel yr amlinellwyd yn y TOM drafft, rydym yn rhagweld y bydd staff a gyflogir gan CRC yn debygol o fod mewn cwmpas i'w trosglwyddo. Trwy ganslo'r gystadleuaeth PDP, a dod â'r ddarpariaeth o'r ymyriadau hynny i'r NPS, bydd mwy o staff bellach yn gymwys i'w trosglwyddo i'r NPS.</p>



# **Pennod Tri: Manylion pellach ar y newidiadau**



## 3. Manylion pellach ar y newidiadau

### Cyflwyno Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig gan yr NPS

- 3.1. O dan ein hymagwedd ddiwygiedig i ddiwygio'r gwasanaeth prawf, ni fydd Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig yn cael eu contractio allan i Bartneriaid Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf bellach ond yn hytrach byddant yn cael eu cyflenwi gan yr NPS yn uniongyrchol. Rydym o'r farn y bydd dod â'r gwasanaethau hyn i'r NPS yn ein rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i ymateb i unrhyw amhariad pellach a achosir gan COVID-19 ac yn galluogi adferiad mwy llyfn allan o drefniadau cyflenwi eithriadol y bu'n rhaid i ni eu rhoi ar waith. Darparwyd y gwasanaethau hyn gan wasanaethau prawf yn y gorffennol ac o'r herwydd, mae gennym hyder yn ein gallu i ddarparu'r rhain eto.
- 3.2. Ein hymagwedd ar gyfer yr holl wasanaethau hyn ar gyfer Diwrnod 1 fydd i symud staff CRC a modelau cyflenwi presennol i'r NPS gyda chyn lleied o amhariad â phosibl gyda gwaith parhaus o hynny ymlaen yn mynd rhagddi i ymgorffori a gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r newid i lefel o wasanaeth fel y rhagwelir gan y Model Gweithredu Targed drafft yn debygol o gymryd amser oherwydd yr ôl-groniadau i'r Gwaith Di-dâl a'r Rhaglen Achrededig a grëwyd gan drefniadau cyflenwi eithriadol yn ogystal â phig tebygol mewn gorchmynion llys unwaith y bydd treialon llys yn ailddechrau. Byddai hyn yn wir waeth pa sefydliad oedd yn eistedd gyda ni ond rydym o'r farn bod dod â'r gwaith hwn yn fewnol yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni ddelio â hyn.

### Gwaith Di-dâl

- 3.3. The design intentions for Unpaid Work are primarily to address the issues with current delivery and to improve quality and sentencer confidence. Effective Unpaid Work placements are crucial in contributing to the Government's manifesto commitment to toughen community sentences.
- 3.4. Rydym yn bwriadu cyflawni hyn trwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
  - Ansawdd asesiadau;
  - Rhyngweithio â Rheoli Dedfrydau;
  - Lleoliadau o ansawdd digonol gyda mwy o ffocws ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE);
  - Ymgysylltiad a darpariaeth leol;
  - Gweinyddiaeth a chofnodi effeithiol.

- 3.5. Fel y manylir yn y Model Gweithredu Targed drafft, nid yw'r gofyniad presennol i ddechrau gwaith o fewn 7 diwrnod busnes yn darparu digon o amser i asesu a lleoli'n briodol a bydd caniatáu 10 diwrnod gwaith ar gyfer cwblhau'r ffurflen asesu Gwaith Di-dâl yn galluogi asesiad risg ac anghenion llawn. Roeddem wedi rhagweld y byddai hyn wedyn yn cael ei rannu gyda'r Partner Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf i gyd-fynd â lleoliad priodol ac y byddai'r Partner Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf, ymhen 10 diwrnod, yn cyflwyno sesiwn ymsefydlu llawn mewn Gwaith Di-dâl a chyfarwyddyd i fynychu sesiwn waith gyntaf.
- 3.6. Gan fod y model diwygiedig yn dileu'r rhyngwyneb rhwng yr NPS a Gwaith Di-dâl, mae'n darparu budd newydd ar gyfer gorchmynion un gofyniad o'i gymharu â'r model blaenorol gan y gall y timau Gwaith Di-dâl barhau i reoli'r rhain. Bydd hyn yn hwyluso cyflenwi gorchmynion yn effeithlon sy'n canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod oriau Gwaith Di-dâl yn cael eu cwblhau a bydd cael gwared ar y rhyngwyneb yn cyflymu'r broses, gan alluogi lleihau'r amserlen gychwyn o 20 i 15 diwrnod busnes. Bydd y ffurflen asesu Gwaith Di-dâl a gwblheir gan yr Ymarferydd Prawf yn cael ei hymgorffori yn OASys ac felly nid oes unrhyw newid arfaethedig i gwblhau hyn.
- 3.7. Mae'n dal yn flaenoriaeth cynyddu lefel a chwmpas y lleoliadau gwaith sydd ar gael i fodloni gofynion y Llys. Bydd defnyddwyr gwasanaeth benywaidd yn cael cynnig peidio â chael eu lleoli mewn amgylchoedd gwaith hollol wrywaidd a cheisir cael lleoliadau priodol yn y gymuned leol i ddiwallu anghenion amrywiol. Bydd lleoliadau digonol a rhywfaint o hyblygrwydd ochr yn ochr â strategaethau eraill yn osgoi canslo lleoliadau gwaith ar fyr rybudd. Cyfrifoldeb y tîm Gwaith Di-dâl yw adolygu pob achos gweithredol yng nghamau 6 a 9 mis y gofyniad Gwaith Di-dâl i sicrhau bod yr holl oriau'n cael eu cwblhau o fewn y cyfnod o 12 mis a ragnodir gan y Llys ac i dynnu sylw Ymarferwyr Prawf lle bo angen cymryd camau priodol.
- 3.8. Er bod y prif lwybr i fynd i'r afael ag anghenion ETE yn parhau gyda'r Gofyniad Gweithgareddau Adsefydlu yn elfen benodol o'r ddedfryd, mae cryn botensial yn parhau o fewn y gofyniad Gwaith Di-dâl am hyfforddiant yn y swydd a datblygu sgiliau a all gefnogi cyfleoedd am gyflogaeth yn y dyfodol. Nodwedd sy'n diffinio lleoliad o 'ansawdd da' yw un a all ddefnyddio'r lwfans o 20% ar gyfer gweithgareddau ETE i'r rhai sy'n gymwys ac fel yr amlinellir yn y Model Gweithredu Targed drafft, rydym yn cynllunio ffocws o'r newydd ar leoliadau sy'n darparu ETE. O dan y model diwygiedig, rydym yn bwriadu adolygu'r ddarpariaeth ETE sydd gan CRC ar waith ar hyn o bryd a sut y gallem barhau â threfniadau effeithiol yn ogystal â cheisio cyfleoedd ychwanegol i sicrhau gwell ETE.
- 3.9. Byddwn yn cadw ein hymrwymiad i gyfyngu amser teithio i leoliadau Gwaith Di-dâl i uchafswm o 90 munud bob ffordd, ac o'r rhain gellir treulio uchafswm o 60 munud bob ffordd dan oruchwyliaeth a'i briodoli yn erbyn dedfryd y Llys. Nid yw CRC bob amser yn cyflawni hyn ar hyn o bryd, felly bydd angen buddsoddiad pellach mewn Cydlynwyr Lleoli i ddod o hyd i leoliadau'n lleol, ymgymryd ag ymgysylltu lleol a sicrhau datrysiadau trafniadaeth digonol. Ar hyn o bryd mae systemau ar waith fel y gall pobl leol a sefydliadau cymunedol nodi prosiectau gwaith i dimau Gwaith Di-dâl eu cwblhau a bydd angen cryfhau'r rhain o dan y model diwygiedig, gan ei wneud yn ofynnol i



dimau Gwaith Di-dâl geisio barn pobl a sefydliadau lleol yn weithredol wrth fabwysiadu prosiectau Gwaith Di-dâl newydd.

- 3.10. Rydym yn cydnabod y bydd angen i ni hefyd adolygu logisteg cyflenwi Gwaith Di-dâl gan gynnwys ystyried ystadau ac asedau CRC y gallai fod eu hangen arnom i fodloni gofynion lleoliad a sut rydym yn casglu data perthnasol ar leoliadau ac amserlennu o systemau CRC a chofnodi hyn wrth symud ymlaen. Bydd angen i ni hefyd ystyried sut rydym yn rheoli cymorth gweinyddol nad oes model unffurf ar ei gyfer o dan gontractau CRC.

### Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig

- 3.11. Rhaglenni Achrededig yw'r ymyriad dewisol ar gyfer GCPEM, gan eu bod yn cael eu cefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn. Ar hyn o bryd mae'r NPS yn darparu Rhaglenni Achrededig penodol (e.e. ar gyfer troseddwy'r rhyw) a fydd yn hwyluso trosglwyddo Rhaglenni Achrededig eraill i'r NPS gan fod arbenigedd yn y maes hwn yn barod ac rydym yn rhagweld y bydd staff sy'n gymwys i'w trosglwyddo gydag arbenigedd tebyg. Trwy ddod â'r rhain ynghyd o dan un sefydliad unigol, byddwn hefyd yn elwa o synergeddau wrth ddarparu'r rhaglenni hyn.
- 3.12. Bydd yr NPS yn parhau i gynnal gwiriadau cymhwysra ac addasrwydd i sicrhau bod y rhai sy'n bodloni'r meini prawf yn cael cyfle i fynychu Rhaglen Achrededig. Gall yr NPS gyflawni'r Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP) a'r Rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gwell (BBR) ym mhob rhanbarth. Yn y tymor byr, gall Rhaglenni Achrededig eraill sy'n mynd i'r afael ag anghenion fel Datrys a Meithrin Sgiliau Adfer, sy'n cael eu darparu mewn rhai lleoliadau ar hyn o bryd barhau, yn amodol ar adolygiad o'r ystafell ddarparu gan y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu bodloni. Gellir cyflawni bwiriadau dylunio i fodloni gofynion cydraddoldeb a chwblhau amserol hefyd trwy ein hymagwedd ddiwygiedig a chânt eu cefnogi gan y model cyflenwi hyblyg a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n caniatáu ar gyfer cyflenwi o bell ac un-i-un i ddiwallu anghenion penodol.
- 3.13. Gwnaethom nodi yn y Model Gweithredu Targed drafft mai'r amser hiraf y byddai disgwyl i unigolyn ei dreulio'n teithio i fynychu Rhaglen Achrededig neu Ymyriad Strwythuredig fyddai 90 munud bob ffordd. Er mwyn cyflawni hyn o dan y model diwygiedig, bydd angen i ni sicrhau llety lleol addas sy'n bodloni gofynion y Panel Achredu a Chyngor Gwasanaethau Cywirol. Mae angen cwmpasu ymhellach ystadau'r CRC a'r NPS i ddeall a ellir bodloni hyn trwy'r darpariaethau presennol yn ogystal ag adolygiad o'r trefniadau hynny a roddwyd ar waith gan CRC y bydd angen iddynt barhau (e.e. darparu gyrwyr i gludo unigolion i ymyriadau oherwydd heriau trafniadaeth gyhoeddus). Yn yr un modd â Gwaith Di-dâl, bydd angen i ni hefyd sicrhau bod gennym systemau a phrosesau priodol ar waith i ddarparu cofnod o ddarpariaeth ymyriadau y gellir sicrhau eu hansawdd.

### Trosglwyddiadau staff a strwythurau rhanbarthol

- 3.14. Disgwylwn y bydd staff CRC sy'n cyflenwi Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig a



Gofynion Gweithgareddau Adsefydlu yn y tri maes angen a fydd yn dod yn Ymyriadau Strwythuredig, yn cael eu neilltuo i drosglwyddo i'r NPS. Bydd hyn yn golygu bod llawer mwy o staff yn dod i'r NPS nag o dan y model blaenorol. Bydd rhai staff mewn rolau cymysg sy'n ymwneud yn rhannol â Rheoli Dedfrydau ac yn rhannol ag ymyriadau lle bydd angen gwneud penderfyniadau ar ddyrannu rolau.

- 3.15. Er mwyn goruchwyllo a chyflawni'r gwaith hwn, bydd angen i ni gael timau penodedig o fewn y strwythur rhanbarthol. Mae angen gwaith pellach i benderfynu rolau a strwythurau yn y rhain ond rydym yn rhagweld y bydd rôl uwch-reolwr rhanbarthol newydd i oruchwyllo timau sy'n canolbwyntio ar Waith Di-dâl ac Ymyriadau. Yn achos Gwaith Di-dâl, bydd angen i ni ystyried trefniadau ar gyfer cyflwyno ETE a mentoriaid cymheiriaid, a all gael eu his-gontractio o dan gontractau CRC presennol mewn rhai achosion. Yn yr un modd, ar gyfer cyflwyno'r rhaglen BBR, bydd angen i ni ystyried trefniadau ar gyfer rôl y Gweithiwr Cyswllt Partner y mae rhai CRC yn ei his-gontractio ar hyn o bryd.

### Ymagwedd ddiwygiedig tuag at y Fframwaith Dynamig

- 3.16. Er mwyn cefnogi paratoad y gweithgareddau caffael, roedd ein gwaith o ddatblygu dyluniad y Fframwaith Dynamig wedi symud ymlaen ers cyhoeddi'r Model Gweithredu Targed drafft. O dan y model blaenorol, roeddem wedi bwriadu gosod dros 200 o gontractau ar lefel PCC i gefnogi adsefydlu ac ailsefydlu ar gyfer Diwrnod 1 yn y meysydd angen canlynol:
- Llety;
  - Addysg, Hyfforddiant & Chyflogaeth a Chyllid, Budd-daliadau a Dyled;
  - Dibyniaeth ac adferiad;
  - Lles personol;
  - Gwasanaethau menywod;
  - Gwasanaethau i oedolion ifanc yng Nghymru.
- 3.17. Mae arbenigedd cyflenwi llawer o'r gefnogaeth adsefydlu ac ailsefydlu i'w gael yn y farchnad gan nad yw'r gwasanaeth prawf wedi darparu'r gwasanaethau hyn fel mater o drefn yn y gorffennol. Rydym o'r farn mai'r Fframwaith Dynamig yw'r mecanwaith mwyaf priodol o hyd i sicrhau hyn. Y rheswm am hyn yw ei fod yn sefydlu'r sylfaen ar gyfer caffael y gwasanaethau hyn yn lleol yn y dyfodol ac yn galluogi cyflenwi gofynion penodol a chyson.
- 3.18. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod effaith COVID-19 ar allu llawer o sefydliadau i wneud cynigion ynghyd â'n gallu mewnol ein hunain i redeg y cystadlaethau, eu gwerthuso a chefnogi paratodau yn golygu bod angen i ni adolygu cwmpas yr hyn y gallwn ei gaffael trwy'r Fframwaith Dynamig ar gyfer Mehefin 2021.
- 3.19. Er mwyn cydbwysu'r angen i leihau cymhlethdod ein cynlluniau yn ôl y gofyn

cychwynnol â sicrhau bod digon o wasanaethau arbenigol yn dal i fod ar waith ar gyfer Diwrnod 1, rydym wedi ail-ystyried a oes dewisiadau amgen ar gael yn y tymor byr er mwyn osgoi'r angen am gystadlaethau yn ôl y gofyn ar draws rhai categorïau o angen ar gyfer Diwrnod 1. Er enghraifft, ar gyfer rhywfaint o gwmpas Diwrnod 1 a fwriadwyd yn wreiddiol, mae ffynonellau darpariaeth amgen yn bodoli eisoes y mae Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol wedi'u cysylltu'n well â nhw, ac yn gallu eu comisiynu neu eu cyd-gomisiynu yn uniongyrchol.

3.20. Mae ein penderfyniad ynglŷn â beth i barhau i'w gaffael ar gyfer Diwrnod 1 wedi'i hysbysu gan yr ystyriaethau canlynol:

- Lle mae'r ddarpariaeth statudol neu amgen ar ei gwannaf;
- Rhwyddineb y ddarpariaeth fewnol (gan gynnwys y cyfle i gyd-gomisiynu gan dimau rhanbarthol, set sgiliau'r staff a'r gallu cyflenwi ffisegol – e.e. a oes angen adeilad);
- Defnydd cyfredol – y lefel a sut mae'n cael ei gyflenwi;
- Graddau'r angen (e.e. a oes gofyniad penodol i ailsefydlu cyn rhyddhau yn ogystal ag angen adsefydlu ar ôl rhyddhau)

3.21. Ar gyfer Diwrnod 1, rydym hefyd wedi ystyried lle y gallai fod yn briodol caffael gwasanaethau ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel PCC, a thrwy hynny leihau nifer y lotiau a gwneud y darparu ar gyfer Mehefin 2021 yn fwy hyfyw. Nid yw ymagwedd ranbarthol yn atal y ddarpariaeth leol. Rydym yn bwriadu trafod gyda'r Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yr ôl troed daearyddol sy'n ofynnol yn eu rhanbarthau ar gyfer darparu gwasanaethau yn effeithiol a sut y gallwn hwyluso hyn (e.e. cydleoli â swyddfeydd prawf), yn ogystal ag ystyried lleoliad ac ymatebolrwydd gwasanaethau wrth werthuso cynigion.

3.22. Byddwn yn agor cymhwyster ar gyfer pob categori o angen o dan y Fframwaith Dynamig, hyd yn oed os nad yw rhai ohonynt bellach o fewn cwmpas ein cam cychwynnol o weithgareddau caffael Diwrnod 1. Mae hyn yn bwysig, gan fod ein huchelgais yn parhau i allu diwallu ystod eang o anghenion gwasanaeth drwy'r Fframwaith Dynamig.


### Effeithiau ar staff

3.23. Mae cefnogi staff trwy'r broses hon yn hanfodol i'w drosglwyddo a'i darparu'n llwyddiannus. Ein hymagwedd o hyd yw gweithio'n agos ag Undebau Llafur, cyflogwyr a staff presennol i gefnogi'r trawsnewid a lleihau'r effaith ar rolau pobl. Er bod angen i ni gynnal adolygiad manylach, gan ddefnyddio canlyniadau data wedi'u diweddarau gan CRC ynghylch effeithiau penodol y model newydd ar staff, mae newidiadau o ran Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig yn golygu ein bod yn rhagweld y bydd staff sy'n darparu gwasanaethau cyfatebol o dan CRC ar hyn o bryd yn cael eu neilltuo i'w trosglwyddo i'r NPS. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i grŵp sylweddol o staff a fyddai fel arall wedi bod yn ddibynnol ar ganlyniadau cystadleuaeth y Partner Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf i hysbysu'r hyn a fyddai'n digwydd iddynt.

- 3.24. Fel yr amlinellir yn y Model Gweithredu Targed drafft, byddwn yn amddiffyn telerau ac amodau staff ar ôl trosglwyddo a bydd y mwyafrif o staff newydd sy'n trosglwyddo'n orfodol i'r NPS yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y llywodraeth leol ar ôl trosglwyddo. Yr eithriad yw'r rhai hynny sy'n dal i fod yn gymwys i gymryd rhan yng nghynllun pensiwn y gwasanaeth sifil.
- 3.25. Bydd ymarferoldeb dod â nifer cynyddol o staff o nifer cynyddol o gyflogwyr i'r NPS yn gofyn am drafodaethau Undeb Llafur o'r newydd ac amseroedd arwain hirach ar gyfer galluogi gweithgaredd fel adeiladu'r gyflogres a phrofi a fetio. Mae hefyd yn debygol o olygu y bydd angen i ni ganolbwyntio ar gael gofynion sylfaenol ar waith ar gyfer Diwrnod 1 a gweithredu newidiadau pellach fel ailstrwythuro ar ôl trosglwyddo. Fel rhan o'r trawsnewid, byddwn yn sicrhau bod y staff hynny sy'n symud i'r NPS yn cael eu cyfeirio a'u cefnogi'n llawn.
- 3.26. Mae sefydlu rhaglen gweithlu ar wahân, gan weithio mewn cydweithrediad agos â diwygio'r gwasanaeth prawf i ddatblygu ac adeiladu ein gweithlu, yn cydnabod mai ein pobl yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Rydym yn cydnabod y cynnydd tebygol mewn anghenion hyfforddi a grëir gan y newid hwn ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i nodi a mynd i'r afael â bylchau dysgu, datblygiad a phrofiad i'n staff.
- 3.27. Rydym yn cydnabod y pryder y bydd staff yn ei deimlo ynghylch newid i'r system newydd hon ac rydym eisiau gallu eu cefnogi drwyddo. Mae hyn yn cynnwys darparu gwaith ysgogol sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb staff. Rydym am feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol sy'n denu, yn cadw ac yn datblygu pobl fedrus ac yn hyrwyddo ymddygiadau ac arferion cadarnhaol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Strategaeth Gweithlu yn fuan, a fydd yn nodi bwriadau yn fanylach ac yn sicrhau bod newidiadau ehangach sy'n digwydd yn y gwasanaeth prawf yn mynd law yn llaw â newidiadau cadarnhaol i'n gweithlu.



# **Pennod Pedwar: Cantau nesaf**



## 4. Camau nesaf

- 4.1. Byddwn yn ailbroffilio rhaglen diwygio'r gwasanaeth prawf yn gyflym iawn i adlewyrchu'r model diwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys ail-flaenoriaethu adnoddau i'r meysydd hynny a fydd yn cefnogi trawsnewid llyfn ac adolygu cerrig milltir allweddol hyd at Fehefin 2021 a thu hwnt i sicrhau bod y newidiadau yn cael eu gweithredu a'u hymgorffori'n llwyddiannus.
- 4.2. Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'r Model Gweithredu Targed ar gyfer dyfodol gwasanaethau prawf yn gynnar yn 2021 i roi mwy o fanylion am y system newydd, wedi'i hysbysu gan y newidiadau yr ydym wedi'u cyhoeddi yn ogystal â'r cyfleoedd a gyflwynir gan ffyrdd newydd o weithio y bu'n rhaid i ni eu cyflwyno o ganlyniad i COVID-19.
- 4.3. Byddwn yn datblygu darlun diwygiedig o'r newidiadau i gefnogi ymgysylltiad â chydweithwyr a rhanddeiliaid er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn y newidiadau yn y dyfodol.
- 4.4. Byddwn yn parhau i weithio gydag uwch arweinwyr o fewn yr NPS a'r CRC i fynd i'r afael yn benodol â'r diwylliant/diwylliannau sydd gennym ar hyn o bryd a'r hyn yr ydym yn anelu ato yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn gynhwysol ac yn cydnabod amrywiaeth ein gweithlu a'n darpariaeth.
- 4.5. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol wrth ddatblygu ein cynlluniau.



HM Prison &  
Probation Service

